

## **Prif Awgrymiadau**

Dyma rai awgrymiadau ar gasglu a chyflwyno'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer enghreifftiau sy'n seiliedig ar ymddygiadau ar gyfer y cais a'r cyfweiliad.

### **Meddyliwch am yr hyn rydych wedi ei wneud**

Defnyddiwch dystiolaeth o unrhyw gyflogaeth os gallwch. Efallai y bydd ymddygiadau lle na allwch ddarparu enghraifft o swydd ac yn yr achos hwn, meddyliwch am ffyrdd rydych wedi dangos ymddygiadau y tu allan i'r gwaith, efallai trwy wirfoddoli.

### **Cydosod tystiolaeth a'i chyfateb**

Casglwch eich tystiolaeth a'i dadansoddi. Cydweddwch eich cyflawniadau â'r ymddygiad(au) sy'n ofynnol ar gyfer y swydd.

### **Treuliwch amser**

Gall ysgrifennu enghraifft dda gymryd amser, felly gadewch ddigon o amser i chi eich hun. Fodd bynnag, mae angen i chi gofio dyddiadau cau er mwyn sicrhau eich bod yn cyflwyno'ch cais cyn y dyddiad cau.

### **Ysgrifennwch eich drafft cyntaf o atebion**

Ysgrifennwch eich enghraifft(au) ymddygiadau cyn eu hychwanegu at y ffurflen gais. Efallai yr hoffech roi pwyntiau bwled ar gyfer negeseuon allweddol, gall hyn fod yn ddefnyddiol i strwythuro'ch ateb. Gallwch ddefnyddio'r strwythur hwn i ychwanegu manylion penodol sy'n amlinellu'r hyn a wnaethoch a sut y gwnaethoch hynny. Defnyddiwch fwy o'ch cyfrif geiriau ar eich gweithredoedd, ymddygiadau a'r effaith a gyflawnwyd yn hytrach na'r sefyllfa neu'r ffactorau y tu hwnt i'ch rheolaeth. Sicrhewch fod eich atebion yn canolbwyntio ar yr hyn a wnaethoch chi a dim eich tîm.

### **Darllenwch drosodd**

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen dros eich enghraifft(au). Mae hwn yn aml yn bwynt da i gymharu'ch ateb â'r dangosyddion ymddygiad a'r pwyntiau 'sut mae da yn edrych' o'r ddogfen Ymddygiadau Proffiliau Llwyddiant. Mae hyn yn helpu i gadw ffocws ar eich ateb.

### **Cadwch o fewn y terfyn geiriau**

Y nifer geiriau ar gyfer ceisiadau Anogwyr Gwaith yw 500 gair ac mae yno i roi cyfle i chi ddweud wrthym am eich tystiolaeth. Defnyddiwch y cyfrif geiriau llawn. Dylech osgoi jargon ac acronymau, gwnewch eich tystiolaeth yn hawdd ei deall. Sicrhewch eich bod yn cywiro unrhyw wallau sillafu, atalnodi neu ramadeg.

### **Cwblhewch eich atebion**

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen dros yr hyn rydych wedi'i ysgrifennu â llygad beirniadol; oes unrhyw beth y gallech ei ddileu a dal i gyfleu'ch pwynt? Cyfeiriwch yn ôl at y disgrifiad swydd yn yr hysbyseb ac yn y dangosyddion ymddygiad i sicrhau bod eich tystiolaeth yn berthnasol i'r rôl.

